Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Modelau Manteision eGaffael i Sefydliadau

Cefndir

Mae Gwerth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Grŵp Datblygu o randdeiliaid o bob sector i greu modelau sy'n helpu Sector Cyhoeddus Cymru i ddeall eu haeddfedrwydd eGaffael a'r manteision sydd iddo wrth weithredu eGaffael.

Datblygwyd dau fodel drwy gyfres o weithdai rhyngweithiol gyda'r Grŵp Datblygu a chefnogaeth gan y Bwrdd Cyflawni a'r Bwrdd Caffael eGaffael. Fel dangosydd allweddol o'r gallu eGaffael, bydd y model manteision yn cael ei ymgorffori yn y rhaglen nesaf o wiriadau ffitrwydd i gaffael.

Yn unol â'r cylch bywyd eGaffael llawn (gweler y diagram ar y dudalen nesaf), y ddau Fodel eGaffael yw:

i. Model Aeddfedrwydd eGaffael

- Yn ymdrin â 5 lefel aeddfedrwydd .
- Yn cynnwys templed hunanasesu.

ii. Model Manteision eGaffael i Sefydliadau

- Yn ymdrin â 12 mantais wedi'u rhannu i 5 math o fantais.
- Yn cynnwys cyfrifydd manteision i helpu sefydliadau i nodi gwerthoedd y manteision.

Sut fydd y Modelau'n gweithio?

Ceir nifer o elfennau allweddol yn y ddau Fodel eGaffael, sef:

- Annibynnol – nid yw'n gysylltiedig ag ePS Gwerth Cymru nac unrhyw declynnau eraill.
- Realistig, trylwyr a hyblyg.
- Eang – yn adlewyrchu'r gwahanol lefelau o aeddfedrwydd eGaffael ar draws SCC.
- Yn ymdrin â gwahanol fathau o fanteision y mae angen eu gwireddu a'u hawlio'n lleol ar lefel sefydliadol.

Model Aeddfedrwydd

Gall sefydliadau fesur eu hunain yn erbyn y Model Aeddfedrwydd, gan osod targedau ac amserlenni.

Model Manteision

Mae modd defnyddio'r Model Manteision i ragamcanu'r manteision posibl, yn ogystal ag olrhain manteision sydd wedi'u gwireddu ar hyn o bryd.



Dyfyniadau gan aelodau'r Grŵp Datblygu:

"Bydd cyflwyno'r teclyn eGaffael deinamig a chadarn hwn yn caniatáu i sefydliadau ddeall eu haeddfedrwydd mewn perthynas ag eGaffael, nodi meysydd i'w gwella, sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chofnodi'n effeithiol."

Jayne Williams, Pennaeth Caffael, Grŵp Gwalia

"Byddwn yn defnyddio'r modelau'n fewnol fel pwynt trafod gyda thimau P2P i fesur lle ydyn ni a lle rydyn ni eisiau bod o ran eGaffael. Hefyd, y bwriad yw defnyddio'r model manteision i gael dealltwriaeth lawn o gost rhedeg prosesau caffael a'r gwerth ychwanegol y gallwn ei gynnig i'n hadrannau."

Lee Bunkham, Uwch-Swyddog Caffael, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Sut i gymryd rhan

Cynhelir cyfres o weithdai dros y misoedd nesaf yn y Gogledd a'r De er mwyn i chi ddysgu'n uniongyrchol am y Modelau. Er mwyn dysgu mwy am y Modelau arloesol newydd hyn a bod yn un o'r gwirfoddolwyr cynnar i roi'r Modelau ar waith, cysylltwch â: Nicola Maliphant yn **benefitsmodels@wales.gsi.gov.uk**

OGL
© Hawlfraint y Goron 2015
24701